# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 13 i 20 Ebrill 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

2 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

2 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

8 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

9 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

9 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

10 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

### Prosiect Superjet BAE Systems

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol ohonynt mewn perthynas â British Aerospace yn mynd â'r prosiect superjet o Frychdyn, efallai i ran arall o Ewrop? (WAQ4867)

**Alun Cairns:** Beth yw'r diweddaraf am y prosiect superjet y bwriadwyd ei leoli yn wreiddiol ym Mrychdyn? (WAQ4868)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau o'r fath. Dywedodd BAE Systems ei fod yn dymuno ailedrych ar faint y gwaith A3XX superjumbo yr ymgymerir ag ef ym Mrychdyn. Cytunais i gyfarfod â'r cwmni i drafod y mater ymhellach.

### Prosiect Superjet BAE Systems (Grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol)

**Alun Cairns:** Pa ffactorau a ystyriwyd pan benderfynwyd peidio â chymeradwyo'r grant cymorth rhanbarthol dewisol o £25 miliwn i brosiect superjet Brychdyn? (WAQ4869)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae BAE Systems wedi gofyn imi beidio â datgelu unrhyw fanylion mewn perthynas â'i gais am gymorth rhanbarthol dewisol, gan gynnwys achos y cwmni dros dderbyn cymorth grant, manylion y ffactorau a ystyriwyd yn ein trafodaethau a'r sail resymegol i'r penderfyniad i beidio â chynnig cymorth. Cytunais â chais y cwmni.

### Rhyddhau Organebau a Addaswyd yn Enetig

**Michael German:** Beth oedd ymateb y Prif Ysgrifennydd i'r farn a gyflwynwyd iddo gan Gyfeillion y Ddaear ar 8 Mawrth 2000 ynghylch caniatâd i ryddhau organebau a addaswyd yn enetig? (WAQ4874)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd Christine Gwyther yn ymateb cyn hir.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Rhyddhau Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig

**Michael German:** Beth oedd ymateb y Prif Ysgrifennydd i'r farn a gyflwynwyd iddo gan Gyfeillion y Ddaear ar 8 Mawrth 2000 ynghylch caniatâd i ryddhau organebau a addaswyd yn enetig? (WAQ4875)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Byddaf yn ymateb cyn hir.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Trosglwyddiad CJD

**Peter Rogers:** Pa wybodaeth a dderbyniodd yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch trosglwyddiad CJD o ganlyniad i ddefnyddio meinwe gwartheg wedi'i heintio ar gyfer cynhyrchu brechlynnau? (WAQ4863)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae diogelwch brechlynnau'n fater i'r Asiantaeth Rheoli Meddyginiaethau, a ddarparodd yr wybodaeth ganlynol.

Nid yw deunydd gwartheg wedi ei gynnwys mewn unrhyw frechlyn. Fe'i defnyddir wrth weithgynhyrchu rhai brechlynnau, ond dim ond i hybu twf celloedd, firysau neu facteria yn ystod gweithgynhyrchu. Bwriad y puro sydd yn dilyn yw tynnu'r holl ddeunyddiau sydd yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchu ond sydd heb fod yn angenrheidiol yn y cynnyrch terfynol. Mae'r gweithgynhyrchwyr yn darparu dilysiad o'r prosesau hynny i'r Asiantaeth Rheoli Meddyginiaethau.

Yn 1988 nododd adroddiad Southwood fod y perygl o drosglwyddo BSE i bobl yn fach ac yn ddamcaniaethol. Derbyniwyd y cyngor hwn gan y Pwyllgor ar Ddiogelwch Meddyginiaethau. Fodd bynnag, er mwyn rhagofal, yn 1989, cyhoeddwyd canllawiau gan y Pwyllgor ar Ddiogelwch Meddyginiaethau ar gyfer y diwydiant fferyllol ar gaffael a phrosesu deunyddiau anifeiliaid. Mae'r canllawiau'n ymdrin â tharddle daearyddol y deunydd, y math o feinwe a ddefnyddir a'r prosesau y mae'n rhaid eu cymhwyso at ddeunydd o'r fath er mwyn lleihau unrhyw berygl y gallai ei olygu.

Nid oes tystiolaeth i gysylltu CJD amrywiadol â brechlynnau. Ymgymerwyd â dadansoddiad yn ddiweddar o ddatgeliad achosion o'r CJD amrywiadol i frechlynnau gan yr Uned Gwyliadwriaeth CJD, Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Rheoliadau Biolegol a'r Adran Iechyd. Ei gasgliad oedd:

'os yw CJD yn ganlyniad i ddatgeliad i ddeunydd a heintiwyd gan wartheg â BSE, ymddengys nad oes rôl yn ei achosiaeth hyd yn hyn i frechlynnau a roddwyd cyn 2 oed'.

### Cynnyrch Gwaed o Anifeiliaid Tramor

**David Davies:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw cynnyrch gwaed o anifeiliaid tramor a fewnforir i Gymru wedi ei heintio â BSE? (WAQ4877)

**Jane Hutt:** Rhaid i gynhyrchion gwaed crai a fewnforir i Gymru y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl ddod o sefydliadau a gymeradwyir gan yr UE oddi mewn i drydedd wlad a restrwyd gan yr UE a dod gydag ardystiad iechyd milfeddygol. Yn ogystal, rhaid iddynt gydymffurfio â Gorchymyn Deunydd Perygl Dynodedig y DU 1997 a dod gyda datganiad sydd yn nodi nad ydynt yn cynnwys deunydd perygl dynodedig fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn hwnnw.

Mae gwaed a chynhyrchion gwaed na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl yn ddarostyngedig i ofynion trwydded mewnforio, sydd yn mynnu bod gwarantau iechyd penodol ynghylch tarddle'r cynhyrchion. Rhaid iddynt gydymffurfio hefyd â Gorchymyn Deunydd Perygl Dynodedig y DU 1997. Byddai gwaed a chynhyrchion gwaed a fwriedir i ddibenion heblaw eu bwyta gan bobl neu anifeiliaid yn ddarostyngedig hefyd i reolau cenedlaethol y DU a thrwydded mewnforio.

### Cyfnod Aros i Gleifion Allanol

**David Davies:** Ar gyfartaledd, beth oedd y cyfnod aros i gleifion allanol yng Nghymru yn ystod pob un o'r chwe mis diwethaf, a beth oedd y ffigurau yn ystod yr un cyfnod y llynedd? (WAQ4880)

**Jane Hutt:** Nid oes data ar gael yn ganolog ar gyfnodau aros cyfartalog i gleifion allanol. Mae ystadegau ar gael ar nifer y cleifion allanol sydd ar restrau aros am lai na thri neu lai na chwe mis. Mae'r tabl canlynol yn dangos y niferoedd hynny fel canrannau o gyfanswm nifer y cleifion sydd yn aros am apwyntiad claf allanol cyntaf.

| | **Y ganran sydd yn aros llai na thri mis** | | **Y ganran sydd yn aros llai na chwe mis** | |
|---|---|---|---|---|
| | Medi 1998 i Chwefror 1999 | Medi 1999 i Chwefror 2000 | Medi 1998 i Chwefror 1999 | Medi 1999 i Chwefror 2000 |
| Diwedd: Medi | 60.0 | 53.7 | 86.9 | 80.4 |
| Hydref | 58.8 | 53.2 | 86.3 | 79.3 |
| Tachwedd | 59.9 | 55.4 | 86.1 | 79.4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 57.9 | 51.8 | 84.2 | 77.5 |
| Ionawr | 56.1 | 50.9 | 82.8 | 76.0 |
| Chwefror | 57.1 | 50.4 | 83.4 | 75.9 |

**Swyddi Nyrsio Gwag**

**David Davies:** A wnaiff Jane Hutt roi manylion y swyddi nyrsio gwag yn y cyfnod Medi 1999 i Ionawr 2000 fesul ymddiriedolaeth ysbyty, graddfa ac arbenigedd? (WAQ4887)

**Jane Hutt:** Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y swyddi nyrsio gwag (mae hyn yn cynnwys nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd) mewn ysbytai ac ymddiriedolaethau yn ystod y cyfnod 31 Awst 1999 i 1 Ionawr 2000. Nid oes gwybodaeth ar gael yn ganolog ar raddfeydd unigol.

| Ysbyty / Ymddiriedolaeth NHS | Swyddi Gwag yn Cyfateb i Rai Llawn Amser |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a'r Rhondda | 23.13 |
| Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 7.00 |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin | 25.54 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gymunedol Caerdydd a'r Cylch | 58.98 |
| Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg | 26.00 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent | 91.67 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg | 55.15 |
| Ysbyty Felindre | 4.80 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys | 7.00 |
| Ymddiriedolaeth NHS Abertawe | 53.00 |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen | 3.20 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Orllewin Cymru | 65.52 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru | 86.25 |
| Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych | 21.00 |
| Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau | 198.27 |
| **CYFANSWM** | **726.51** |

**Trefniadau Mabwysiadu**

**David Melding:** Beth yw hyd cyfartalog trefniadau mabwysiadu o fewn awdurdodau lleol Cymru a'r gwahaniaeth amser rhwng y trefniadau arafaf a'r rhai cyflymaf ymysg awdurdodau lleol Cymru? (WAQ4889)

**Jane Hutt:** Ni chesglir yr wybodaeth hon yn ganolog fel arfer. Mae'r cyfarwyddyd ym mharagraff 10 o Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 6/99, 'Mabwysiadu—Taro'r Cydbwysedd Iawn', yn nodi y dylai cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ddarparu adroddiadau rheolaidd i aelodau etholedig ynghylch plant sydd yn ngofal eu hawdurdod lleol sydd yn aros i gael eu lleoli gyda theuluoedd newydd.

**Mwy o Ddefnydd o'r Sector Preifat**

**David Melding:** A oes yna le i wneud mwy o ddefnydd o'r sector preifat yn yr NHS? (WAQ4890)

**Jane Hutt:** Cyfeiriaf at gwestiwn Nick Bourne ar 20 Rhagfyr (WAQ2804) ar y pwnc hwn ac ailddatganaf ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat lle y mae hynny er budd cleifion unigol, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'n amlwg na allwn fod yn orchmynnol ynghylch lefel cysylltiad y sector preifat â'r NHS yng Nghymru gan fod rhaid i hyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol.

Rhagwelaf y bydd strategaeth gorfforaethol NHS Cymru yn darparu fframwaith y gall NHS Cymru a'r sector preifat weithio mewn partneriaeth oddi mewn iddo pan wnaiff argymhellion ynghylch cyfeiriad tymor hir yr NHS yn ddiweddarach eleni.

### Zyban (Bupropion Hydrochloride SR)

**David Melding:** Pryd y bydd Jane Hutt yn gwneud penderfyniad ynghylch a yw zyban (bupropion hydrochloride SR) i fod ar gael ar yr NHS? (WAQ4891)

**Jane Hutt:** Gellir cyflenwi sawl cynnyrch sydd â'r bwriad o helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu o dan yr NHS drwy glinigau, ond ni ellir eu rhagnodi o dan yr NHS drwy ymarferwyr meddygol cyffredinol. Mae'r polisi hwn yn fater i'r Cynulliad yn awr a byddaf yn ystyried ei gymhwyso at gynhyrchion newydd, lle y bo'n briodol, pan ddeuant ar y farchnad.

### Cyfarwyddeb Oriau Gwaith yr Undeb Ewropeaidd (Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru)

**David Davies:** Sut y mae Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dod yn eu blaenau o ran gweithredu darpariaeth Cyfarwyddeb Oriau Gwaith yr Undeb Ewropeaidd a beth yw'r raddfa amser a ddisgwylir ar gyfer cydymffurfio'n llawn, os yw'n briodol? (WAQ4892)

**Jane Hutt:** Cytunwyd ar bolisi personél ar weithredu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith gydag ochr staff Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar ôl ymgynghori.

### Sgrinio'r Fron

**David Davies:** A oes unrhyw gynlluniau i ymestyn sgrinio'r fron i gynnwys menywod dros 64 oed? (WAQ4893)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn bryderus iawn ynghylch nifer uchel yr achosion o ganser y fron a'r dioddef y mae'n ei achosi i'r rhai a effeithir a'u teuluoedd.

Pan sefydlwyd rhaglen sgrinio'r fron yr NHS gyntaf yn 1988, yr oedd tystiolaeth yn awgrymu na fyddai benywod hŷn yn derbyn gwahoddiadau i gael eu sgrinio. Fodd bynnag, mae modd erioed i fenywod dros 64 gael eu sgrinio o dan y rhaglen pan gyfeiriant eu hunain.

Yng ngolwg y niferoedd cynyddol o fenywod dros 64 sydd bellach yn dod ymlaen i'w cyfeirio eu hunain, sefydlwyd cynlluniau peilot yn Leeds/Wakefield, Nottingham a Brighton i brofi dichonoldeb ac effeithiolrwydd cynnwys sgrinio rheolaidd ar gyfer benywod dros 64. Bydd yr olaf o'r profion tair-blynedd hyn yn dod i ben cyn hir.

Bydd y pwyllgor sgrinio cenedlaethol, sydd yn cynghori'r Llywodraeth ar ba raglenni sgrinio y dylai'r NHS ymgymryd â hwy, yn gwneud argymhellion yr haf hwn ynghylch pa newidiadau sydd yn angenrheidiol yn rhaglen sgrinio'r fron bresennol yr NHS, ar ôl edrych ar y cynlluniau peilot. Byddaf yn ystyried argymhellion y pwyllgor yn ofalus bryd hynny.

### Nyrsys Cofrestredig

**David Davies:** Beth yw'r targed ar gyfer cynyddu nifer y nyrsys cofrestredig yng Nghymru yn 2000-01? (WAQ4894)

**Jane Hutt:** Mae nifer y lleoedd hyfforddi nyrsys a gyllidir yn uniongyrchol gan y Cynulliad yn adlewyrchu'r ffigurau cynllunio gweithlu a gesglir cyn sefydlu cwrs er mwyn adlewyrchu anghenion disgwyliedig y gwasanaeth ar gwblhau'r cwrs. Mae'r ffigurau isod yn cyfeirio at nifer y darpar nyrsys

yng Nghymru sydd ar hyn o bryd mewn hyfforddiant cyn cofrestru y disgwylir iddynt raddio yn 2000 a 2001. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn amodol ar golledion rhwng hyn a diwedd y cwrs.

| Dyddiad Dechrau | Dyddiad Graddio Disgwyliedig | |
|---|---|---|
| Gwanwyn 1997 | Gwanwyn 2000 | 349 |
| Hydref 1997 | Hydref 2000 | 408 |
| Gwanwyn 1998 | Gwanwyn 2001 | 380 |
| Hydref 1998 | Hydref 2001 | 435 |

Er bod y ffigurau uchod yn adlewyrchu nifer y darpar nyrsys a fydd yn graddio yng Nghymru yn 2000 a 2001, nid ydynt yn adlewyrchu llifau trawsffiniol o staff presennol yr NHS a rhai sydd newydd ymgymhwyso. Bydd yr NHS yng Nghymru yn 2000 a 2001 yn cyflogi nyrsys heblaw'r rhai a welir yn y ffigurau uchod a bydd canran o'r myfyrwyr uchod yn cael gwaith yn Lloegr, yr Alban a thu hwnt.

Mae trafodaethau blaenoriaethol yn mynd rhagddynt er mwyn rhoi ar waith yn effeithiol yr adnoddau ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a ddyrannwyd i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.

### Lleoedd Nyrsio

**David Lloyd:** Faint o leoedd nyrsio oedd ar gael ym mhob blwyddyn academaidd yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, a faint sydd wedi'u cynllunio ym mhob blwyddyn academaidd yng Nghymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf? (WAQ4902)

**Jane Hutt:** Mae nifer y lleoedd i ddarpar nyrsys a roddwyd ar gontract yn y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru fel a ganlyn.

| | | |
|---|---|---|
| 1996 | - | 811 |
| 1997 | - | 872 |
| 1998 | - | 999 |
| 1999 | - | 953 |
| 2000 | - | 949 |

Pennir nifer y lleoedd i ddarpar nyrsys a roddir ar gontract bob blwyddyn gan gynlluniau gweithlu'r ymddiriedolaethau. Pennir y niferoedd ar gyfer 2001 gan gynlluniau gweithlu'r ymddiriedolaethau a dderbynnir gan y Cynulliad y mis hwn. Adolygir proses cynllunio'r gweithlu dros y misoedd nesaf a thrafodir y posibiliad o gynlluniau tymor hwy fel y gellir cynllunio niferoedd myfyrwyr ar gyfer y dyfodol yn hytrach nag am un flwyddyn ar y tro.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

### Eiddo Gwag

**Alun Cairns:** Pa gamau a chyngor y mae'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai yn eu cymryd ynghylch casglu treth cyngor a'r dreth ar fusnesau o eiddo gwag? (WAQ4854)

**Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law):** Mae'r Gorchymyn Treth Cyngor (Anheddau a Eithriwyd) 1992 yn rhagnodi dosbarthiadau o anheddau na thelir treth cyngor ar eu cyfer. Mae Dosbarth A yn caniatáu eithrio o dreth cyngor anheddau sydd yn wag ac sydd yn cael eu neu'n gofyn eu hatgyweirio neu eu newid o ran eu hadeiladwaith er mwyn gallu byw ynddynt. O 1 Ebrill 2000 mae newid yn y ddeddfwriaeth hon, sydd yn golygu na chaiff eiddo yn Nosbarth A ei eithrio o'r dreth ond am 12 mis ar y mwyaf. Ni fydd anheddau sydd eisoes wedi eu heithrio am 12 mis neu fwy ar 1 Ebrill 2000 yn gymwys bellach i'w heithrio o dan Ddosbarth A ac os yw'r eiddo'n aros yn wag codir tâl am y dreth cyngor ar yr eiddo o 50 y cant o swm y bil llawn. Newidiwyd deddfwriaeth y dreth cyngor i gyfyngu ar yr

eithriad er mwyn cymell perchnogion i gwblhau atgyweiriadau a dechrau ailddefnyddio eiddo. Darparwyd arweiniad priodol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu rhyddhad llwyr rhag trethi i bob eiddo busnes trethadwy sydd yn wag am gyfnod o hyd at dri mis. Bydd eiddo sydd yn parhau'n wag ar ôl y cyfnod dechreuol o dri mis yn agored i drethi eiddo gwag ar ostyngiad o 50 y cant. Nid oes bwriad i newid y ddeddfwriaeth bresennol ar eiddo gwag ar gyfer trethi busnes.

### Etholiadau Llywodraeth Leol

**Nick Bourne:** A wnaiff Peter Law gyhoeddi unrhyw sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch cynnal etholiadau llywodraeth leol? (WAQ4870)

**Peter Law:** Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau i mi mewn perthynas â chynnal etholiadau llywodraeth leol. Mae'r ddeddfwriaeth sydd yn rheoli cynnal etholiadau llywodraeth leol yn fater i'r Swyddfa Gartref.

### Etholiadau Teg

**Nick Bourne:** A wnaiff Peter Law gyflwyno sylwadau i Gyngor Sir Powys ynghylch cynnal etholiadau teg? (WAQ4871)

**Peter Law:** Ni chyflwynaf sylwadau i Gyngor Sir Powys ynghylch cynnal etholiadau teg, gan fod cynnal etholiadau llywodraeth leol yn fater i'r Swyddfa Gartref.

### Pobl sydd yn Hawlio Lloches Wleidyddol

**David Davies:** Faint o'r bobl sydd yn hawlio lloches wleidyddol yn y DU sydd yn cael eu gwasgaru yng Nghymru? (WAQ4884)

**Peter Law:** Mae'r Swyddfa Gartref yn amcangyfrif y bydd tua 5,000 o geiswyr nodded yn cael eu gwasgaru i bob ardal glwstwr, gan gynnwys Cymru, yn 2000-01. Ni wasgarwyd unrhyw geiswyr nodded i Gymru hyd yn hyn ac ni ddisgwylir y bydd y trefniadau gwasgaru'n llwyr weithredol tan yr hydref.

### Digartrefedd ymysg Ieuenctid

**Ann Jones:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd neu eu cynllunio i ddelio â'r broblem gynyddol o ddigartrefedd ymysg ieuenctid yn ardal gogledd Cymru? (WAQ4898)

**Peter Law:** Cyflwynwyd adroddiad–'Cysgu Allan yng Nghymru'—gan un a secondiwyd i'r Cynulliad o'r sector gwirfoddol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 8 Rhagfyr 1999. Cydnabu'r adroddiad broblem digartrefedd ledled Cymru a dynododd fylchau yn y ddarpariaeth. Bu un o grwpiau gorchwyl y strategaeth dai genedlaethol hefyd yn edrych ar anghenion pobl fregus. Mae wedi ystyried 'Cysgu Allan yng Nghymru', ac wedi edrych ar anghenion y digartref ledled Cymru.

Gwneir llawer eisoes yng ngogledd Cymru. Mae'r grant refeniw tai cynaliedig yn darparu dros £300,000 y flwyddyn ar gyfer 85 o leoedd gwely i rai digartref sengl yng Nghonwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Ar gyfer 2000-01, dyrannwyd 11 o leoedd gwely ychwanegol (£39,000 y flwyddyn) ar gyfer rhai digartref sengl yn Wrecsam.

Yn ogystal, mae prosiect byw cynaliedig yn Wrecsam a gyllidir gan y Cynulliad o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996.

Mae cyllideb y Cynulliad ar gyfer 1999-2000 yn cynnwys cynnydd o £800,000 yn y cyllid o dan Adran 180 er mwyn cynorthwyo'r digartref. Yn ogystal, mae £3.6 miliwn wedi ei ddyrannu dros dro i

awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau strategol o ymdrin â phroblem digartrefedd (a’r broblem gysylltiedig o dai amlbreswyliaeth) yn eu hardaloedd.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

### Atal Hawl Mynediad i Dir Amaeth

**Nick Bourne:** A wnaiff Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ystyried cyflwyno sylwadau ynglŷn ag atal hawl mynediad i dir amaeth pan fydd ŵyna, lloea neu ddifa plâu yn digwydd oddi allan i’r cyfnod 28 diwrnod arfaethedig o dan y cynigion ar gyfer yr hawl i grwydro? (WAQ4648)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex):** Mae’r hawl mynediad arfaethedig i gefn gwlad agored yn ymwneud â glaswelltir garw sydd heb ei drin yn unig, nid tir amaeth yn gyffredinol. Mae’r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu hawl i dirfeddiannwr neu ddeiliad wahardd neu gyfyngu ar fynediad i dir ar hyd at 28 diwrnod o fewn blwyddyn galendr a, heblaw am benwythnosau a rhai gwyliau, bydd rhyddid i dirfeddianwyr a deiliaid benderfynu ar ba ddiwrnodiau y rhoddir y cyfyngiadau neu’r caeadau ar waith. Fodd bynnag, bydd tirfeddianwyr yn gallu ymgeisio hefyd am gaeadau ychwanegol, yn ogystal â’r 28 diwrnod ar sail rheoli tiroedd.

### Cyflwyno’r Hawl i Grwydro (Costau)

**Glyn Davies:** Yn dilyn fy nghwestiwn dyddiedig 15 Mawrth (OAQ4144), a wnaiff Sue Essex egluro cyfanswm y costau a achosir i’r Cynulliad drwy gyflwyno deddfwriaeth ynghylch yr hawl i grwydro, gan gynnwys cyfanswm y swm a ddyrennir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru? (WAQ4687)

**Sue Essex:** Nid yw’r asesiad effaith reoleiddiol ar gyfer y Mesur Cefn Gwlad yn dynodi costau ar gyfer Cymru ar wahân ac mae’n rhy fuan i ddweud pa adnoddau y bydd y Cynulliad yn eu dyrannu at waith sydd yn deillio o ddeddfwriaeth eilaidd. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi dyrannu £280,000 ar gyfer gwaith mynediad yn y blynyddoedd ariannol 1999-2001 a bydd hefyd yn dyrannu rhywfaint o’r £800,000 ychwanegol a gynigiwyd gan yr Ysgrifennydd Cyllid ar 28 Mawrth yn y flwyddyn ariannol hon.

### Gwasanaeth Trên Ychwanegol

**Lynne Neagle:** Sut y bydd y gwasanaeth trên ychwanegol rhwng gogledd a de Cymru yn effeithio ar amserlen y trenau sydd yn galw yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl? (WAQ4820)

**Sue Essex:** Er mwyn cynnwys y gwasanaeth dwyffordd newydd o Gaerdydd i Gaergybi a ddaw i rym ddydd Llun 29 Mai, bydd angen rhai newidiadau yn y gwasanaethau a fydd yn cystadlu am yr un llwybr rheilffordd.

O 29 Mai, bydd y gwasanaeth 06.28 o Bristol Temple Meads i’r Fenni sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu Cwmbrân (07.21) a Phont-y-pŵl (07.27) yn gorffen yng Nghasnewydd am 07.06. Bydd yn cysylltu â’r gwasanaeth newydd o Gaerdydd i Gaergybi yng Nghasnewydd, a fydd yn gadael Casnewydd am 07.24 ac na fydd yn stopio yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl.

Bydd y trên 07.20 o Gaerdydd i Fanceinion yn darparu gwasanaeth stopio yn ei le o Gasnewydd i’r Fenni. Golyga hyn y bydd y gwasanaethau newydd o Gwmbrân a Phont-y-pŵl i’r Fenni yn rhedeg tua 20 munud yn hwyrach na’r ddarpariaeth bresennol.

Ar y daith yn ôl, bydd y gwasanaeth dwyffordd am 14.30 o Gaergybi i Gaerdydd yn galw ym Mhont-y-pŵl a Chwmbrân tua 25 munud yn hwyrach na’r gwasanaeth presennol am 19.00 o’r Fenni i Gaerdydd, a ddisodlir ganddo.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Gwariant ar Ysgolion

**David Davies:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant roi manylion gwariant llywodraeth leol ar ysgolion yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a'r gwariant tebygol yn y dyfodol lle bo hynny ar gael, fel cyfanswm a fesul disgybl? (WAQ4885)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Rhoddir yr wybodaeth sydd ar gael yn y tabl canlynol.

**Cyfanswm y Gwariant Refeniw ar Ysgolion gan Awdurdodau Lleol**

| | Cyfanswm y Gwariant<br>£ miliwn | Gwariant fesul disgybl<br>£ |
|---|---|---|
| 1996-97 | 1,151.2 | 2,360 |
| 1997-98 | 1,200.1 | 2,450 |
| 1998-99 | 1,232.1 | 2,510 |
| 1999-2000 | 1,304.1 | 2,660 |

Disgwylir gwybodaeth oddi wrth awdurdodau lleol ar eu cyllidebau ar gyfer 2000-01. Darperir dadansoddiad i'r Pwyllgor Addysg Cyn-16, Ysgolion ac Addysg Gynnar gyda hyn.

Bydd y gwariant yn 2001-02 ac wedyn yn dibynnu ar benderfyniadau'r Cynulliad ar gyllid i awdurdodau lleol ac ar benderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch y defnydd o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

**Nodiadau**

- Ffynhonnell y data gwariant ar gyfer 1996-97 a 1997-98 yw ffurflenni canlyniadau refeniw ac, ar gyfer 1998-99 a 1999-2000, ffurflenni cyllideb refeniw.
- Mae niferoedd y disgyblion yn rhai sydd yn cyfateb i rai llawn-amser ac yn amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- Mae'n cynnwys holl ysgolion gwladol yr awdurdodau addysg lleol a'r holl ysgolion a gynhelir hyd 1999-2000.
- Cymerir gwariant fel yr holl wariant a ddyrannwyd gan yr AALl i swyddogaethau ysgolion.
- Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddirprwywyd a'r rhai a gedwid ar ran ysgolion gan yr AALl..
- Nid yw'r gwariant yn cynnwys incwm o ffïoedd, gwerthiant a thaliadau a godwyd.
- Nid yw'r gwariant yn cynnwys arian a godwyd gan ysgolion unigol.
- Nid yw'r gwariant yn cynnwys arian a dynnwyd o gronfeydd ysgolion unigol.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Gwariant Fesul Myfyriwr Prifysgol

**David Davies:** Beth yw'r gwariant gwirioneddol, y gwariant wedi'i amcangyfrif a'r gwariant wedi'i gynllunio i bob myfyriwr prifysgol yn y gyllideb ar gyfer addysg uwch yng Nghymru am bob blwyddyn y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer? (WAQ4886)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Mae'r gwariant fesul myfyriwr yng Nghymru o 1993-94, sef y flwyddyn y daeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i fodolaeth, hyd 2001-02 fel a ganlyn.

| | | | | | | Amcan-gyfrifedig | Cynlluniedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1993-94 | 1994-95 | 1995-96 | 1996-97 | 1997-98 | 1998-99 | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 |
| £ 4,811 | £ 4,890 | £ 4,676 | £ 4,671 | £ 4,422 | £ 4,546 | £ 4,712 | £ 4,944 | £ 5,113 |

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys grant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r sector addysg uwch yng Nghymru, yn grant rheolaidd ac yn grant cyfalaf, a chyfraniadau ffïoedd hyfforddiant cyhoeddus a phreifat. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys costau rhedeg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

### Strategaeth Atal Camddefnyddio Sylweddau

**Jocelyn Davies:** A oes gan Tom Middlehurst gynlluniau i ddatblygu strategaeth atal camddefnyddio sylweddau i sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl-16, yn arbennig felly golegau addysg bellach? (WAQ4896)

**Tom Middlehurst:** Cyhoeddwyd 'Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol: Cynllun Gweithredu Atal Strategol' gan y Swyddfa Gymreig ac Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru yn 1997. Un o nodau'r cynllun yw annog a chynorthwyo gweithredu ataliol mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys colegau a sefydliadau addysg bellach. Un amcan allweddol yw annog a chynorthwyo sefydliadau addysg bellach i ddatblygu polisïau campws ar gamddefnyddio sylweddau a darparu addysg a deunydd darllen ar leihau niwed i fyfyrwyr. Mae gwerthusiad diweddar o'r cynllun yn awgrymu y bydd angen i dimau gweithredu cyffuriau ac alcohol yng Nghymru gysylltu'n well â sefydliadau os yw'r amcan hwn i'w gyflawni.

Bydd strategaeth camddefnyddio sylweddau ailddiffiniedig ar gyfer Cymru'n cael ei lansio'r mis nesaf. Bydd y strategaeth hon yn datblygu'r gwaith a gyflawnwyd yng Nghymru ers lansio'r strategaeth flaenorol i Gymru, 'Ymlaen Gyda'n Gilydd'. Yr oedd 'Ymlaen Gyda'n Gilydd' yn rhoi blaenoriaeth i waith atal gyda'r ifanc a bydd y strategaeth newydd yn rhoi'r un pwyslais ar blant a phobl ifanc o dan 25, gan gydnabod yr un pryd yr angen i weithio gydag unigolion o bob oed. Un o'i phedwar prif nod fydd helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i wrthsefyll camddefnyddio sylweddau er mwyn cyflawni eu potensial llawn yn y gymdeithas a hyrwyddo yfed synhwyrol yng nghyd-destun ffordd o fyw iach.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

### Cronfeydd Pensiwn y Glowyr

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi eu derbyn mewn perthynas â'r ffaith bod y Llywodraeth yn cael £4,000 miliwn o arian dros ben o gronfeydd pensiwn y glowyr, ac a wnaiff hi dynnu sylw ei chydweithwyr yn San Steffan at y sylwadau hyn? (WAQ4916)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Cyfeiriaf at y datganiad a wnaethpwyd gan y Prif Ysgrifennydd ar y pryd, Alun Michael, pan godwyd y mater yn ystod dadl yn y Cynulliad ar daliadau iawndal glowyr ar 14 Medi 1999.

Cyn preifateiddio, daeth ymddiriedolwyr dau gynllun pensiwn Glo Prydain i gytundeb â'r Llywodraeth lle y byddai'r Llywodraeth yn gwarantu hydaledd y cynlluniau gan sicrhau y byddai hawliau pensiwn yn y dyfodol yn codi'n unol â chwyddiant o leiaf. Yn gyfnewid am yr ymrwymiad anferth hwn i warantu cynlluniau pensiwn y glowyr (dros £17 biliwn) byddai'r Llywodraeth yn derbyn cyfran o 50 y cant o unrhyw wargedau o'r cynlluniau.

Dros y 40 mlynedd diwethaf bu'n rhaid i'r naill Lywodraeth ar ôl y llall chwistrellu £3 biliwn er mwyn cywiro diffygion yn y cynlluniau. Bu'r cynlluniau'n broffidiol yn y pum mlynedd diwethaf, ond bydd

cyfnodau pan na fydd y trethdalwr yn derbyn unrhyw elw tra pery i fod yn agored i fod yn atebol am ddyledion posibl.

Deallaf fod ymddiriedolwyr y ddau gynllun yn fodlon â’r trefniadau presennol o hyd. Mae’n werth nodi’n arbennig bod cyfran fawr o’r arian a ddaeth i’r Llywodraeth oddi tanynt wedi ei defnyddio, mewn gwirionedd, i helpu i adfywio cymunedau cyn-lofaol.